OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1842

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Gosod Ffi) (Cymru) 2015

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ad-daliad" ("*reimbursement*") yw swm y dyfernir sydd i'w ad-dalu fel y crybwyllir yn adran 53(1)(c)(ii) o'r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol;

ystyr "asesiad ariannol" ("*financial assessment*") yw asesiad ariannol o dan adran 63 o'r Ddeddf;

ystyr "ceisydd" ("*requester*") yw—

(a) person a restrir ym mharagraffau (a) to (c) o reoliad 3; a

(b) a ofynnodd am adolygiad o unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â chodi ffi, y cyfeirir ato yn adran 73(1) o'r Ddeddf neu ddyfarniad ynghylch ad-daliad neu gyfraniad a wnaed yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adrannau 50 i 53 o'r Ddeddf;

ystyr "cyfnod adolygu" ("*review period*") yw cyfnod sy'n cychwyn gyda'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn cael cais am adolygiad, ac yn diweddu ar y cynharaf o naill ai'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn anfon ei benderfyniad ar yr adolygiad at y ceisydd, neu'r dyddiad yr hysbysir yr awdurdod lleol o dynnu'n ôl y cais;

ystyr "cyfraniad" ("*contribution*") yw swm y dyfernir fel cyfraniad, fel y crybwyllir yn adran 53(1)(c)(ii) o'r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol;

ystyr "datganiad" ("*statement*") yw datganiad mewn ffurf sy'n briodol ar gyfer anghenion cyfathrebu pob un o'r canlynol—

(a) y ceisydd;

(b) unrhyw gynrychiolydd penodedig; neu

(c) person y mae'r awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth neu ddogfennaeth ganddo o dan reoliad 13;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc yn yr ystyr a roddir i "bank holiday" yn Neddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr "ffi" ("*charge*") yw—

(a) unrhyw ffi a osodir yn unol ag adran 59 o'r Ddeddf;

(b) unrhyw ad-daliad neu gyfraniad y dyfernir yn unol â rheoliadau a wneir o dan adrannau 50 i 53 o'r Ddeddf; neu

(c) unrhyw ffi a osodir ar berson a ddaeth yn atebol, yn unol ag adran 72 o'r Ddeddf, am swm mewn cysylltiad â chostau diwallu anghenion person;

(**1**) 1971 p. 80.

mae i "ffi safonol" ("*standard charge*") yr ystyr a roddir yn adran 63(3) o'r Ddeddf;

mae i "gofal a chymorth" ("*care and support*") yr ystyr a roddir yn adran 4 o'r Ddeddf;

ystyr "mewn ysgrifen" ("*in writing*") yw unrhyw fynegiant a gyfansoddir o eiriau neu ffigurau y gellir ei ddarllen, ei atgynhyrchu a'i gyfathrebu yn ddiweddarach, a gall gynnwys gwybodaeth a drawsyrrir ac a gedwir gan ddefnyddio dulliau electronig;

ystyr "person penodedig" ("*appointed person*") yw person a benodwyd i ymdrin â'r adolygiad yn unol â rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015;

mae i "taliadau gros" ("*gross payments*") yr ystyr a roddir yn adran 53(2) o'r Ddeddf;

ystyr "trosglwyddai atebol" ("*liable transferee*") yw trosglwyddai o fewn yr ystyr yn adran 72 o'r Ddeddf, y codir atebolrwydd yn ei erbyn o dan yr adran honno;

ystyr "ymweliad â'r cartref" ("*home visit*") yw ymweliad a wneir gan swyddog awdurdod lleol â phreswylfa gyfredol—

(a) ceisydd; neu

(b) person y mae'r awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth neu ddogfennaeth ganddo o dan reoliad 13

neu â pha bynnag fan cyfarfod arall y gofynnir amdano yn rhesymol gan y personau y cyfeirir atynt yn (a) neu (b).